# Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Pennod newydd yn hanes Cymoedd y De…



Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Valleys Regional Park

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pennod newydd yn hanes

# Cymoedd y De …

**Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn 2020. Diolch i weledigaeth gyffredin ac ymdrechion cyfunol unigolion a sefydliadau o bob rhan o Gymoedd De Cymru a thu hwnt, sefydlwyd tîm craidd ymroddedig o'r diwedd i ddatblygu'r dyheadau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd.**

Ers hynny, mae ein cenhadaeth fel tîm a phartneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd ehangach wedi canolbwyntio ar ddatgloi a manteisio'n llawn ar botensial ardderchog tirwedd y Cymoedd sydd â threftadaeth naturiol a diwylliannol unigryw. Trwy wneud hyn, nod y tîm a'r bartneriaeth ehangach yw rhyddhau ton o newid cadarnhaol, gan greu budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylweddol a fydd yn lledaenu trwy ein cymunedau ac yn newid canfyddiad pobl o'r Cymoedd am byth.

***Fel rhan o'r cyfnod newydd, mwy pwrpasol hwn, dynodwyd 12 safle rhagorol ymhob than o Gymoedd y De yn Ganolfannau Darganfod, gan rannu bron i £6 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru.***

Diben y buddsoddiad oedd helpu i wireddu potensial llawn y safleoedd hyn wrth gysylltu cymunedau lleol â rhyfeddodau byd natur a'r cyfoeth diwylliannol sydd ar eu stepen drws, gan wella'r broses o gyfleu straeon, treftadaeth a harddwch tirwedd y Cymoedd i ymwelwyr.



Hefyd, mae'r buddsoddiad hwn yn y Canolfannau Darganfod wedi bod yn hanfodol er mwyn galluogi'r safleoedd hyn i gynnig ystod ehangach o gyfleoedd i bobl leol. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau addysg newydd i'w defnyddio gan ysgolion lleol, darpariaeth well ar gyfer gwirfoddolwyr, dehongliad arloesol o'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol leol, a mynediad gwell at yr amrywiaeth o gynefinoedd byd natur eiconig sydd i'w gweld ar bob safle.

Mae hyn wedi bod yn bwysicach fyth yn ystod pandemig COVID ar adeg pan oedd llawer mwy o bobl yn awyddus i fod allan yn yr awyr agored er mwyn cysylltu â byd natur. Amlygwyd y pwysigrwydd hwn gan arolwg Parc Rhanbarthol y Cymoedd a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Nododd 96% o'r ymatebwyr fod y cyfle i ymweld â mannau gwyrdd lleol wedi helpu eu hiechyd meddwl a'u gwytnwch yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae'r buddsoddiad wedi helpu mewn sawl ffordd arall hefyd, gan gynnwys datblygu llwybrau beicio hygyrch i deuluoedd ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, a sefydlu parciau chwarae newydd gwych i blant, fel Parc Bryn Bach. Roedd agor y parc hwn yn ystod y pandemig yn stori newyddion da ar adeg pan oedd ei angen ac roedd yn hwb pwysig i'r ardal. Roedd y mynediad gwell at y dirwedd naturiol yn cynnwys llwybrau pren newydd trwy'r Coetir Gwlyb ym Mryngarw ac ar draws y corsydd mawn sydd wedi'u hadfer yn Llyn Llech Owain. Mae'r llwybrau cerdded gwell yn sicrhau bod mwy o bobl leol yn gallu elwa o fanteision niferus ymgysylltu â'r amgylcheddau hyn a diogelu'r cynefin naturiol sensitif ar yr un pryd.



**Dyma 12 Canolfan Ddarganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd:**

- Parc Coedwig Afan
- Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon
- Parc Gwledig Bryngarw
- Castell Caerffili
- Coedwig Cwm-carn
- Parc Cyfarthfa
- Parc Gwledig Cwm Dâr
- Parc Gwledig Llyn Llech Owain
- Parc Bryn Bach
- Parc Penallta
- Parc Slip
- Parc Coffa Ynysangharad

Trwy bartneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd, mae'r safleoedd hyn yn cydweithio bellach, ac mae pob un yn cyfrannu at y weledigaeth gyffredin o wireddu potensial llawn y tirweddau o'r radd flaenaf sydd gennym ledled y Cymoedd, a'r manteision niferus sy'n cael eu cynnig ganddynt.

Er mwyn helpu i gyfleu'r weledigaeth hon o rwydwaith cydlynol o safleoedd, comisiynwyd map newydd trawiadol sy'n arddangos pob un o'r Canolfannau Darganfod. Mae'r map hwn sy'n drawiadol yn weledol yn cael ei arddangos mewn lle amlwg ym mhob un o'r 12 safle, gan eu dwyn ynghyd yn un ased rhyfeddol ar gyfer cymunedau'r Cymoedd ac ymwelwyr o bell.









# Parc Coedwig Afan




**Roedd Parc Coedwig Afan eisoes yn gyrchfan cenedlaethol poblogaidd ar gyfer y gymuned beicio mynydd, yn ogystal â bod yn gartref i Amgueddfa Mwyngloddio De Cymru. Ond mae gan y lleoliad botensial enfawr yn ehangach, a nod y buddsoddiad gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd oedd datgloi'r potensial hwn trwy ariannu nodweddion a chyfleusterau newydd a fyddai'n apelio at ystod ehangach o gynulleidfaoedd lleol.**


Trwy'r gwelliannau hyn, roedd y buddsoddiad yn gymorth i sefydlu'r lleoliad fel porth proffil uchel i Gymoedd y De a thu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau i gaffi a chanolfan ymwelwyr y Parc, ailsefydlu'r lleoliad fel canolbwynt i'r cwm, a man gwasgaru ar gyfer ymwelwyr sy'n archwilio'r dirwedd leol a rhanbarthol.


Roedd y gwelliannau cyffredinol yn cynnwys arwyddion ac adnoddau dehongli newydd, adnewyddu'r cyfleusterau toiled a chawod, gwella'r cyfleusterau parcio a'r mannau ar gyfer cartrefi modur er mwyn gwella apêl ranbarthol y safle, ac ardal chwarae newydd ragorol i blant er mwyn darparu ar gyfer plant a theuluoedd yn well.





# Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon






**Mae'r dirwedd ym Mlaenafon a'r cyffiniau yn Nhorfaen yn gyforiog o dreftadaeth naturiol a diwydiannol. Cymaint felly nes i UNESCO gyhoeddi ei fod yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2000.**





Mae Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon yn hollbwysig i'r dirwedd hon, gan ddarparu trosolwg o dirwedd ddiwydiannol Blaenafon a man cychwyn delfrydol ar gyfer ymwelwyr sy'n dymuno deall ac archwilio'r ardal a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig.

Roedd buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd ym Mlaenafon yn cydnabod bod angen diweddaru'r adnoddau dehongli ar y Safle Treftadaeth y Byd. Hefyd, roedd grant Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gyfle i foderneiddio'r dull gweithredu a hyrwyddo'r dreftadaeth ddiwydiannol ledled y Cymoedd yn ogystal ag amlygu llwybrau beicio a cherdded lleol.

Hefyd, bu'r cyllid yn help i ddatblygu'r dirwedd ar y safle trwy wella mynediad ar gyfer llwybrau lleol gan gynnwys arwyddion a marcwyr ffordd. Roedd hefyd yn hwyluso gwelliannau i warchodfeydd natur lleol gan hyrwyddo llwybrau cerdded o'r Safle Treftadaeth y Byd.

# Parc Gwledig Bryngarw



**Mae Parc Gwledig Bryngarw ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn arddangos amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd naturiol, sy'n adlewyrchu tirwedd ehangach y Cymoedd.**






Mae hyn yn cynnwys coetiroedd brodorol, dolydd blodau gwyllt, gwlyptiroedd ac Afon Garw. Mae'r cynefinoedd hyn, ynghyd â nodweddion amwynderau fel y maes chwarae ardderchog i blant, yn denu dros 220,000 o ymweliadau bob blwyddyn. Nod buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd yma oedd datblygu llwyddiant y parc trwy wella profiad ymwelwyr ymhellach gan ddarparu mwy o gyfleoedd i ddeall, cyrchu ac ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol rhagorol.

Roedd y cyllid ar gyfer Parc Gwledig Bryngarw yn cwmpasu ystod eang o brosiectau gan gynnwys adnewyddu canolfan ymwelwyr y parc, datblygu adeilad addysg newydd trawiadol sydd wedi'i wreiddio yn yr amgylchedd naturiol hardd; gwella mynediad ac adnoddau dehongli ymhob rhan o'r parc; gosod paneli solar ar adeiladau ledled y safle; cyfleusterau i hyrwyddo teithio llesol, gosodiadau chwarae naturiol newydd a rhagor o waith i wella bioamrywiaeth yn y parc, gan gynnwys plannu coed newydd a chreu pwll bywyd gwyllt.



# Castell Caerffili





**Mae Castell Caerffili yn fwy na dim ond adfail hardd. Hwn yw'r castell mwyaf yng Nghymru a'r cyntaf i gyflwyno amddiffynfeydd consentrig mewn castell ym Mhrydain. Mae'n ymgorffori ein hanes a'n treftadaeth ac mae'n nodwedd eiconig o Barc Rhanbarthol y Cymoedd.**

Roedd y cynigion ar y cyd rhwng CADW a Chyngor Caerffili i fuddsoddi yn y lleoliad yn datblygu rhaglen fuddsoddi ehangach gan CADW. Roedd cysylltiad agos rhwng y cais ac elfennau cysylltedd y Meini Prawf ar gyfer Canolfan Ddarganfod, ac roedd yn canolbwyntio ar ddatblygu coridorau tirwedd a natur, gan wella cysylltiad rhwng y castell a'r parciau a'r dirwedd drefol gyfagos.





# Coedwig Cwm-carn






**Mae safle Cwm-carn, sydd â Ffordd Goedwig flaenllaw, yn cael ei gynnal ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y ddau sefydliad wedi buddsoddi'n helaeth i ailagor y rhodfa drawiadol a oedd wedi bod ar gau ers 6 blynedd, ac i wella'r cynnig ger y Ganolfan Ymwelwyr sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Caerffili.**

Mae buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi datblygu'r gwaith a'r cyllid oedd yno'n barod er mwyn helpu i wireddu potensial llawn Cwm-carn a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y safle fel cyrchfan allweddol i dwristiaid. Roedd y gwelliannau a ariannwyd gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys gwelliannau i'r ganolfan ymwelwyr a chreu gofod swyddfa a rennir, gosod darpariaeth Wi-Fi y bu galw mawr amdani yn y Ganolfan Ymwelwyr a'r safle ehangach, gwella a datblygu llwybrau newydd a gosod arwyddion, datblygu mannau dehongli tirwedd a natur newydd ar hyd y ffordd goedwig, a rheoli cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth ymhob rhan o'r safle.





# Parc Cyfarthfa



**Mae Parc Cyfarthfa yn safle cofrestredig Gradd II ac mae'n un o'r atyniadau twristaidd di-dâl mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Lleolir y parc ar safle amlwg sy'n edrych dros dref Merthyr Tudful, ac mae'n lleoliad hardd ar gyfer Castell Cyfarthfa, sy'n adeilad rhestredig Gradd I.**

Roedd buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd ym Mharc Cyfarthfa yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr.

Mae cegin a chaffi gwych ar eu newydd wedd yn y Ganolfan bellach yn darparu cyfleusterau bwyd ac arlwyo ar gyfer ymwelwyr lleol a thwristiaid, ac mae'r ganolfan yn cynnal gweithgareddau cymunedol.

Yn ogystal, helpodd y cyllid gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd gyda gosod cyfleusterau chwarae hygyrch newydd yn y parc a chreu toiled a chyfleuster newid newydd wrth ymyl y safle tasgu dŵr.








# Parc Gwledig Cwm Dâr





**Mae Parc Gwledig Cwm Dâr yn cynnig dros 500 erw o deithiau cerdded, llwybrau a gweithgareddau i'r teulu, wedi'u lleoli yn nhirwedd eiconig y Cymoedd sy'n cynnwys coetir, porfa a gweundir ac sy'n gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt.**

Roedd y gwelliannau a ariannwyd gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn rhan o'r uwchgynllun cyffredinol ar gyfer Cwm Dâr, sy'n cynnwys llwybrau beicio ac ardal gweithgaredd tag laser. Roedd prif elfennau buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys datblygu llwybrau beicio sy'n hygyrch i deuluoedd, sydd hefyd yn cynnwys 'Traciau Pwmpio' amrywiol ac unigryw a gafodd eu creu mewn mannau penodol ar hyd y llwybr, gan ddarparu ar gyfer pobl o bob oed a gallu.


Hefyd, defnyddiwyd yr arian i ddiweddaru ac adnewyddu'r parc chwarae presennol a gwella ei hygyrchedd fel bod pob plentyn yn gallu ei fwynhau, waeth beth fo'i alluoedd corfforol neu synhwyraidd.








# Llyn Llech Owain





**Mae Parc Gwledig Llyn Llech Owain yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys 180 erw o harddwch naturiol. Y llyn a'r gors fawn o'i gwmpas yw prif atyniad y safle, y ddau yn gyforiog o fywyd gwyllt a llên gwerin.**







Roedd buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cydnabod bod y safle, a'i gynefin mawnog wedi'i adfer, yn ychwanegu at naratif Canolfannau Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Er mwyn gwireddu potensial y safle fel Canolfan eiconig i Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn y gorllewin, roedd angen buddsoddiad i wella mynediad a'r profiad cyffredinol i ymwelwyr. Roedd y cyllid yn darparu ar gyfer mynedfa a 'man cyrraedd' gwell i greu argraff gyntaf gofiadwy, gwelliannau i'r rhwydwaith llwybrau a llwybrau pren dros dirwedd y gors, uwchraddio'r ganolfan ymwelwyr a'r cyfleusterau i wirfoddolwyr, adnoddau newydd ar gyfer dehongli'r dirwedd, a gwelliannau i'r caffi a'r ardal chwarae i blant, gan greu cymhellion newydd i ymweld â'r safle.

Hefyd, derbyniodd Llyn Llech Owain fuddsoddiad i ddatblygu 'Hyb Gwaith Llesiant' yn y Tŵr Darganfod, ac ardal gyfarfod awyr agored newydd gyda tho drosto. Mae Hybiau Gwaith Llesiant yn gysyniad a gynlluniwyd ac a ddatblygwyd trwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Eu nod yw darparu cyfleoedd gweithio o bell sydd wedi'u hymgorffori yn yr amgylchedd naturiol, gan ganiatáu i ddefnyddwyr elwa o'r manteision iechyd, llesiant a chynhyrchiant niferus sy'n deillio o ddod i gysylltiad â byd natur yn ystod y diwrnod gwaith.

# Parc Bryn Bach



**Mae Parc Bryn Bach ym Mlaenau Gwent yn warchodfa natur leol mewn 340 erw o goetir a glaswelltir, ac mae llyn trawiadol 36 erw yn ganolbwynt i'r safle.**

Roedd buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn canolbwyntio ar wella cyfleusterau a phrofiad cyffredinol ymwelwyr, gan helpu i sefydlu Canolfan Ddarganfod eiconig arall yng nghymoedd y de-ddwyrain. Roedd y datblygiadau a ariannwyd yn cynnwys gwelliannau i'r tŷ bynciau a'r ganolfan ymwelwyr; ardal chwarae bren newydd ddifyr; a gwelliannau i lwybrau teithio llesol sy'n cysylltu'r parc â chymunedau lleol.

Hefyd, derbyniodd Parc Bryn Bach fuddsoddiad i ddatblygu'r ail o ddau 'Hyb Gwaith Llesiant' a sefydlwyd gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'r hyb hwn sy'n seiliedig ar natur yn cynnwys caban newydd â thu blaen gwydr sy'n gartref i weithfannau unigol, ac ail adeilad i'w ddefnyddio fel man cyfarfod i grwpiau. Mae'r hyb yn cynnig golygfeydd godidog o'r llyn, ac mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy fel man tawel i weithio o bell wrth ymgolli ym myd natur.







# Parc Penallta







**Mae Parc Penallta yn gartref i "Sultan - Merlyn Pwll Glo", cerflun ffiguraidd a wnaed allan o'r ddaear sydd gyda'r mwyaf yn y wlad, ac mae'n lle hardd a heddychlon sy'n llawn trysorau cudd a harddwch naturiol.**

Mae'r ffaith hon yn fwy o ryfeddod byth os ystyriwch chi fod y safle cyfoethog a gwyrdd hwn yn domen lo dim ond 30 mlynedd yn ôl. Mae'r parc yn ymgorffori trawsnewidiad parhaus tirwedd y Cymoedd a'i photensial enfawr ar gyfer cymunedau lleol.



Trwy bartneriaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd, cytunwyd ar gynlluniau uchelgeisiol i ddarparu canolfan ymwelwyr a gofod cymunedol yn y parc. Yn anffodus, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen i ddatblygu'r ganolfan ymwelwyr oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau a'r ffaith fod y safle yn agos at gyfleuster twristiaeth ac addysg sydd ar fin cael ei gwblhau ym Mharc Colliers Farm gerllaw.



Yn hytrach nag adeiladu canolfan a fyddai'n cystadlu, bydd y grisiau i gael mynediad at y cyfleuster twristiaeth ac addysg newydd trwy Barc Penallta yn cael eu hadnewyddu. Bydd y grisiau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ac yn cynnwys rheiliau llaw a ramp.



# Parc Slip



**Mae Gwarchodfa Natur Parc Slip ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn hen safle mwyngloddio glo brig. Mae'r safle wedi cael ei adfer a'i drawsnewid yn hafan ffyniannus o fioamrywiaeth a harddwch naturiol, diolch i waith anhygoel Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru sydd bellach yn rheoli'r safle.**

Roedd buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn canolbwyntio ar wella profiad cyffredinol ymwelwyr a gwella'r broses o reoli cynefinoedd, yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd i ymwelwyr ddeall ac ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol eiconig.

Roedd y datblygiadau hyn yn cynnwys gwelliannau i'r ganolfan ymwelwyr, ardal eistedd dan do newydd ar gyfer cerddwyr cŵn, raciau ar gyfer beiciau a mannau gwefru cerbydau trydan newydd, gwelliannau i fynediad, arwyddion ac adnoddau dehongli drwyddi draw, plannu perllan ffrwythau a chnau newydd, rheoli'r pyllau dŵr mewn ffordd sensitif, ac adfer cofeb y glowyr gan gynnwys ffynnon wedi'i hadnewyddu fel y canolbwynt.





# Parc Coffa Ynysangharad





**Mae Parc Coffa Ynysangharad ym Mhontypridd wedi bod yn denu ymwelwyr ers bron i 100 mlynedd. Mae'r tiroedd trawiadol hefyd yn gartref i Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i adfer mewn ffordd drawiadol.**





Roedd buddsoddiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn y safle yn rhan o becyn ehangach o welliannau a buddsoddiad, gyda'r nod o gyfrannu at Uwchgynllun newydd Pontypridd sy'n canolbwyntio ar sicrhau buddsoddiad a thwf sylweddol yn y dref ac ym Mharc Coffa Ynysangharad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau effeithiau cadarnhaol trwy wella ansawdd a maint y seilwaith gwyrdd yng nghanol y dref.

Sicrhaodd y cyllid hwn welliannau i'r llwybrau troed a'r goleuadau yn y parc, yn ogystal â darparu cyfleuster 'Changing Places' newydd, cynhwysol.




# Y camau nesaf i Ganolfannau Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd – a thu hwnt!

**Rydym wedi ymrwymo i archwilio a hyrwyddo gwerth enfawr y Canolfannau Darganfod a mannau gwyrdd tebyg ledled y Cymoedd. Un o'n nodau allweddol yw sicrhau bod y safleoedd hyn a'r timau ymroddedig sy'n gweithio arnynt yn cael cydnabyddiaeth eang am eu pwysigrwydd.**

Mae ein hymdrechion yn cynnwys archwilio yn barhaus a dangos i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill sut mae'r safleoedd hyn yn cyfrannu at gyflawni nodau polisi a strategol. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar yr amgylchedd naturiol i gefnogi iechyd a llesiant, darparu rhaglenni a gwasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd meithrin sgiliau, dysgu a hamdden, cefnogi cyflogaeth leol sy'n seiliedig ar natur, a llawer mwy. Trwy sicrhau bod gwerth gwirioneddol y lleoedd eithriadol hyn yn cael ei ddeall yn llawn, gallwn greu sefyllfa ffafriol ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol.

Mae tirweddau a mannau gwyrdd y Cymoedd yn darparu tir ffrwythlon ar gyfer helpu i dyfu bwyd yn lleol mewn ffordd gynaliadwy. Trwy archwilio'r potensial ar gyfer tyfu cynnyrch ffres yn y mannau hyn, gallwn gyfrannu at ddiogeledd bwyd lleol, hyrwyddo arferion bwyta iachach, a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chludo bwyd dros bellter hir. Yn ogystal, mae cynnwys y gymuned leol yn y gweithgareddau hyn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a grymuso, gan feithrin cysylltiad dyfnach â'r tir wrth i unigolion gymryd rhan weithredol yn y broses o dyfu eu bwyd eu hunain ac ailgysylltu â byd natur. Bydd hyn yn ganolbwynt allweddol arall yn ystod y cam nesaf.








*"These projects will put the Valleys Regional Park on the map nationally and internationally as a place which can inspire, excite and attract visitors from near and far. They will also provide opportunities for economic growth which is a key aim of the Valleys Taskforce."*

**Lee Waters**
Deputy Minister for Economy with responsibility for the Valleys Taskforce.

Yn ogystal, bydd ein hymdrechion yn cynnwys hyrwyddo mentrau presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd, archwilio sut y gellir defnyddio'r Canolfannau Darganfod a'r amgylchedd naturiol yn y Cymoedd i wella llesiant cyffredinol a mynd i'r afael â heriau ffisegol, cymdeithasol ac o ran iechyd meddwl. Trwy ddangos manteision therapiwtig treulio amser yn y mannau gwyrdd hyn, gallwn ddadlau o blaid eu cynnwys mewn rhaglenni gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

***Mae'r rhaglen Gwarcheidwaid, sydd wedi ymgysylltu â thros 1,400 o gyfranogwyr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dangos yn glir bod galw mawr am gyfleoedd yn ymwneud â sgiliau, dysgu a phrofiad o fyd natur yn y Cymoedd. Yn ystod y cam nesaf, byddwn yn archwilio dulliau cynaliadwy o ddarparu mwy o'r cyfleoedd pwysig hyn yn lleol. Fel rhan o'r ymdrech hon, rydym yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol i Gymru.***





Yn ogystal â galluogi pobl i gysylltu â'u hamgylchedd naturiol lleol ac elwa o'r manteision niferus, mae'r cyfleoedd hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â'r Argyfwng Natur. Er enghraifft, roedd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi arwain at wybodaeth ac argymhellion allweddol, gan bwysleisio pwysigrwydd meithrin gallu, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth, a datblygu sgiliau fel sylfaen i gamau gweithredu yn y dyfodol.








Yn dilyn hyn, byddwn yn dadlau o blaid cynnwys y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i adfer byd natur mewn dyheadau polisi fel y Strategaeth Sgiliau Sero Net, gan geisio creu llwybrau mwy gweladwy a hygyrch tuag at swyddi gwyrdd yn y Cymoedd. Mae Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) yn amcangyfrif bod modd creu dros 4,000 o swyddi yng Nghymru ar y tir ac ym meysydd coedwigaeth a gwelliannau amaethyddol o fewn dwy flynedd. Yn ogystal, mae RSPB Cymru yn amcangyfrif y gallai'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol gynnal bron i 7,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn newydd yng Nghymru os oes modd sicrhau buddsoddi-ad priodol ym myd natur. Mae adroddiad ar wahân a gomisiynwyd gan Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi amlygu'r bwlch sgiliau sylweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef er mwyn datgloi'r potensial i greu swyddi sy'n seiliedig ar adfer natur.

Mae'r astudiaethau a'r adroddiadau hyn yn tanlinellu'r angen brys am fwy o gyfleoedd lleol sy'n galluogi unigolion o bob oed a chefndir i ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer gyrfa yn y sector natur.

O ystyried bod lefelau is o sgiliau a chymwysterau yn y Cymoedd o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, gall mentrau sydd â'r nod o wella'r galluogrwydd hyn gael effaith sylweddol ar y rhanbarth. Mae defnyddio'r rhwydwaith o Ganolfannau Darganfod a safleoedd tebyg i ddarparu'r cyfleoedd hyn yn sicrhau eu bod ar gael yn hwylus i gymunedau lleol.

Gall y Canolfannau Darganfod a mannau gwyrdd tebyg yn y Cymoedd fod yn byrth sy'n helpu i'n harwain at ddyfodol mwy disglair a gwyrdd. Gallan nhw fod yn allweddol i ddatgloi llawer o gyfleoedd ar gyfer Cymoedd iachach, mwy ffyniannus, cysylltiedig a bywiog.

Wrth i ni barhau â'r daith drawsnewidiol hon gyda'n gilydd, ar sail ein gweledigaeth gyffredin a'n hawydd am newid, rydym yn benderfynol o greu gwaddol y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei drysori. Trwy stiwardiaeth amgylcheddol, grymuso cymunedau a manteisio ar botensial llawn ein tirweddau, gyda'n gilydd gallwn greu Parc Rhanbarthol y Cymoedd ffyniannus a fydd yn destun balchder i bob un ohonom.

Mae cyfleoedd yn bodoli ledled y Cymoedd i gymryd rhan a chyfrannu at y dyfodol cadarnhaol y bydd ein tirwedd yn helpu i'w lunio.

***I drafod sut y gallwch chi helpu, e-bostiwch ValleysRegionalPark@Bridgend.gov.uk***

